Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

# Adroddiad Blynyddol

## Ebrill 2021-Mawrth 2022

### Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Cynnwys


3 Amdanom Ni

5 Datganiad gan y Prif Weithredwr

6 Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd

7 Adolygiad o’r Flwyddyn

8 Sicrhau Ansawdd

8 Arloesedd

9 Arweinyddiaeth System

10 Ein Cymdeithion

12 Datblygu Arweinyddiaeth

12 Partneriaethau

13 Adnoddau

13 Mewnwelediad

13 Lles

14 Datganiadau Ariannol

15 Y Flwyddyn I Ddod

# Amdanom Ni

Cenhadaeth yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yw “Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau” gyda’r nod o ddod ag eglurder a chydlyniaeth i arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru. Drwy ein gwaith, byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu ymgysylltu gyda’r dysgu proffesiynol mwyaf perthnasol, ystyrlon ac ysbrydoledig.


Mae’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi’i seilio ar weledigaeth gref, ac mae cyfres o werthoedd ac egwyddorion craidd yn sail iddi sydd wedi’u datblygu ar y cyd gan y sector. Wrth wraidd y weledigaeth hon mae ymrwymiad i sicrhau bod gan bob arweinydd yn y system addysg fynediad at gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o safon uchel sy’n diwallu eu hanghenion lle bynnag y maen nhw, a waeth pa gam y maen nhw yn eu gyrfa a’u huchelgeisiau. Rydym yn canolbwyntio ar alluogi arweinyddiaeth dysgu ac rydym yn dangos hyn drwy ymgorffori ein gwerthoedd ym mhopeth a wnawn.

**CYDWEITHREDU**
Fel sefydliad bach, ni fyddwn yn cyflawni unrhyw beth trwy weithio ar ein pennau ein hunain. Yn hytrach, partneriaethau agos gyda’r proffesiwn a chyda’n sefydliadau cymheiriaid haen ganol fydd ein dull diofyn o weithio

**SEFYDLIAD DYSGU**
Byddwn yn adolygu ac yn addasu ein gwaith yn seiliedig ar ganfyddiadau Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth

**CYNHWYSOL**
Byddwn yn gweithio gyda’r holl arweinwyr addysgol ac ar eu rhan, waeth beth fo’u lleoliad, sector, cyfnod gyrfa, cefndir daearyddol ac a oes ganddynt rôl arwain ffurfiol neu anffurfiol

**O DDIFRIF AM LES**
Mae arweinyddiaeth effeithiol yn ffynnu pan fydd cefnogaeth i les arweinwyr. Byddwn yn blaenoriaethu lles pob gweithiwr proffesiynol, gan gynnwys ein staff ein hunain a Chymdeithion




**CENEDLAETHOL**
Byddwn yn gweithio gyda Chymru gyfan ac ar ei rhan i helpu i sicrhau gwlad â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

**SEFYDLIAD SY’N GWRANDO**
Mae gwrando a rhoi llais i lais arweinyddiaeth wrth wraidd ein gwaith a bydd safbwyntiau, profiadau a barn broffesiynol arweinwyr addysgol yn llywio popeth a wnawn. Bydd y maes addysg yng Nghymru yn parhau i newid a byddwn yn addasu ein dull strategol, ein ffyrdd o weithio a’n dyraniad adnoddau i adlewyrchu heriau a chyfleoedd Newydd

**HYD BRAICH**
Fel sefydliad sy’n cyd-fynd yn strategol â Llywodraeth Cymru ac yn rhan o’r diwygiadau pwysig sydd ar y gweill ym maes addysg Cymru, byddwn yn gyfrannwr cadarnhaol sy’n gallu herio, yn ogystal â hwyluso, natur a llwybr polisi Arweinyddiaeth

**CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith ein hunain ac yn y ffordd rydym ni’n ceisio dylanwadu ar waith pobl eraill. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol

Mae pob arweinydd yn manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol arloesol teg ac o ansawdd uchel, waeth beth fo’u lleoliad, sector, cyfnod gyrfa ac a oes ganddynt rôl arweinyddiaeth ffurfiol neu anffurfiol

Mae arweinyddiaeth system effeithiol yn ysgogi hunanwelliant, gyda gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac arwain y tu hwnt i strwythurau sefydliadol, rhwng haenau ac ar draws sectorau

Mae canllawiau arweinyddiaeth o ansawdd uchel sy’n benodol i Gymru, wedi’u llywio gan y dystiolaeth orau o Gymru ac yn rhyngwladol, yn helpu gweithwyr proffesiynol i herio a gwella eu dulliau eu hunain o arwain yn barhaus

Mae lles arweinwyr yn cael ei flaenoriaethu a’i gefnogi’n systematig, gan greu gweithlu arweinyddiaeth gynaliadwy a gwydn

Mae Arweinyddiaeth wedi’i gwreiddio fel maes blaenoriaeth hirdymor i lunwyr polisi addysg sy’n para cylchoedd gwleidyddol

Mae arweinwyr wedi’u grymuso i helpu i siapio Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

Mae gan arweinwyr y grym i arloesi a chefnogi arloesedd ymhlith eraill. Mae meddwl a gweithredu arloesol yn sbardun i system hunanwella



# Datganiad gan y Prif Weithredwr



**Rwy'n falch o rannu fy sylwadau ar waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol.**

Wrth i ni edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf… blwyddyn a gafodd ei heffeithio unwaith eto gan y pandemig byd-eang parhaus, blwyddyn a oedd yn cynnwys cyfnodau clo ar lefel genedlaethol, leol ac ysgolion ac mewn rhai achosion, gofyniad i ddosbarthiadau cyfan aros gartref. Blwyddyn lle gwelwyd cynnydd mewn achosion o Covid mewn ysgolion a sefydliadau addysgol yn effeithio ar staff a dysgwyr gan arwain at flwyddyn arall o darfu ar ddysgu.

Rhoddodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol y gorau i rentu swyddfeydd ym mis Awst 2021, gan addasu'n gyfan gwbl i weithio o bell o gartref a darparu ei holl fusnes craidd ar-lein.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd pum aelod staff llawn amser yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn sefydlog. Cawsom gefnogaeth gan ddau weithiwr ar secondiad llawn amser, cynghorydd Arloesedd a Lles ar draws pob sector ac ail secondai a oedd yn cynghori ar Ddatblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd yn y Sector Gwaith Ieuenctid yn arbennig. Mae'r ddau secondai wedi ychwanegu capasiti mawr ei angen i'r sefydliad ac mae'r twf yn y meysydd hyn i'w ganmol.

Gwerthuswyd ein Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd Gorffennaf 2021 ac ychwanegwyd tair ffrwd gwaith newydd i bob un o'r meysydd Corfforaethol.

## Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd

Sicrhau Ansawdd
Arloesedd
Arweinyddiaeth System
**Datblygu Arweinyddiaeth**

## Arweinyddiaeth MewnweledIad a Meddwl

Adnoddau
MewnweledIad
Lles
**Datblygu Gweithlu Strategol**

## Corfforaethol

Llywodraethu Effeithiol
Swyddogaeth Weithredol
Cyfathrebu
**Rhanddeiliaid a Phartneriaethau**

Yn ystod y flwyddyn parhawyd i gymeradwyo darpariaeth arweinyddiaeth, gyda'r holl dystiolaeth yn cael ei chasglu ar-lein. Parhawyd i ddatblygu'r ffrwd gwaith arloesi gyda dwy gyfres Arloesedd ar-lein, un gyda Larry Shulman a'r ail gydag Apple Education. Cefnogwyd y ddwy gyfres gan gyllid llwybr arloesedd a gynigiwyd i'r arweinwyr hynny a fynychodd er mwyn datblygu darpariaeth arweinyddiaeth.

Cynhaliwyd ein hail gynhadledd ar les ar-lein, gan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth dosturiol a oedd yn atgyfnerthu ein gweledigaeth a'n gwerth ein bod ni o ddifrif ynghylch blaenoriaethu lles arweinwyr.

Fe wnaethom ni recriwtio ein pedwaredd garfan o Gymdeithion i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac fe wnaethom ni ddarparu profiadau sefydlu ar-lein iddynt a oedd yn cynnwys gweminarau a mynediad at siaradwyr ysbrydoledig. Mae'r grŵp diweddaraf o Gymdeithion yn cynrychioli'r sectorau Cynradd, Uwchradd, Ysgolion Arbennig, y Sector Gwaith Ieuenctid, cyfrwng Cymraeg ac yn cynrychioli holl ardaloedd Cymru.

Mae ein cyfres Datgloi Arweinyddiaeth yn parhau i fynd o nerth i nerth, gyda siaradwyr cenedlaethol a rhyngwladol o safon uchel yn ymgysylltu ag arweinwyr o bob cwr o Gymru ac ar draws pob sector addysgol.

Cafodd ein hadnodd Arwain Dysgu Proffesiynol ei lansio'n llwyddiannus ddiwedd mis Mawrth 2022, sy'n darparu wyth dilysnod ar gyfer dysgu proffesiynol o dan arweiniad effeithiol. Mae'r adnodd hwn ar gael ar ein gwefan ac am ddim i bob sefydliad addysgol ei ddefnyddio er mwyn cefnogi eu taith ddysgu broffesiynol.

Yn dilyn yr arolwg llwyddiannus o arweinwyr ysgolion yn haf 2020, aethom ati i gynnal arolwg tebyg gyda'r Sector Gwaith Ieuenctid ym mis Hydref 2021. Defnyddiwyd canfyddiadau'r ddau arolwg i ddylanwadu ar ein gwaith ar les. Rydym yn parhau i drafod lles arweinwyr yn ein gweithgor sy'n cynnwys partneriaid o'r haen ganol (cynrychiolwyr Estyn, CGA, Consortia Rhanbarthol a chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol) yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru, Academyddion Addysgol, Cymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Ymgynghorwyr Iechyd a grŵp yr Undebau. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cael ei gefnogi gan grŵp o ymgynghorwyr sydd i gyd yn arweinwyr addysgol gweithredol. Bu eu safbwyntiau a'u sylwadau'n sail i bapur o'r enw 'Er Sylw' sy'n nodi tri maes sydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn blaenoriaethu lles ein harweinwyr addysgol a'u cefnogi'n systematig, gan greu gweithlu arwain cynaliadwy a chydnerth fel y nodwyd yn ein gweledigaeth a'n gwerthoedd. Mae'r rhain yn cynnwys (i) Polisi (ii) Darpariaeth (iii) Egwyddorion.

Hoffwn ddiolch i'n haelodau bwrdd sy'n gorffen eleni am eu cymorth a'u harweiniad ac am graffu ar waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gan ein galluogi i osod sylfaen gadarn ar gyfer yr hyn sydd i ddod.

**Tegwen Ellis, Prif Weithredwr**

# Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd



**Rwyf wrth fy modd yn cyflwyno'r datganiad hwn wrth i mi fyfyrio ar y bedwaredd flwyddyn o waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, yn erbyn cefndir parhaus o newid a her.**

Mae'r sefydliad - dan arweiniad ei Brif Weithredwr, Tegwen Ellis - wedi bod yn gadarn yn ei ymdrech i gefnogi arweinwyr a datblygu arweinyddiaeth ar draws y sector addysg.

Cwblhawyd llawer o waith ar les arweinwyr, cymeradwyo darpariaeth, ymgysylltu'n broffesiynol ag eraill o fewn yr haen ganol a chafwyd deialog barhaus ag arweinwyr yn y system. Ochr yn ochr â'r her o drawsnewid system, mae'r sefydliad wedi lansio ei wefan newydd ac wedi cynnal dwy gynhadledd lwyddiannus ar-lein. Mae gwaith caled y staff wedi arwain at gyrhaeddiad ehangach ar draws Cymru a thu hwnt, ac mae gwelededd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn cael ei fonitro'n ofalus. Mae nifer cynyddol yn tanysgrifio i'r cylchlythyr ar-lein.

Mae Datblygu Arweinyddiaeth wedi hen ennill ei blwyf yn yr amgylchedd rhithwir gyda mentrau fel y gyfres Datgloi Arweinyddiaeth a Pen-i-Ben - yn estyn allan i arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau Gwaith Ieuenctid. Mae digwyddiadau Tair Gwlad a grëwyd mewn partneriaeth â'r Alban ac Iwerddon yn ymestyn effaith y gwaith cydweithredol y tu hwnt i Gymru.

Dylai'r tîm fod yn falch iawn o'u cyflawniadau – yn enwedig y Dyfarniad Aur Buddsoddwyr mewn Pobl a'r ardystiad Cyber Essentials Plus.

Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd y mae eu gwybodaeth a'u sgiliau a ddaw yn sgil eu profiadau eu hunain, yn rhan hanfodol o waith strategol y sefydliad. Mae llawer o'r aelodau yn gweithredu ar lefel strategol ar fyrddau a/neu gyrff llywodraethu sefydliadau eraill hefyd, gan ychwanegu mewnwelediad ac arbenigedd ychwanegol. Mae'r Bwrdd ei hun yn monitro gwaith gweithredol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn ofalus, ac mae'r gwaith craffu'n cael ei wneud gan y ddau is-bwyllgor, sef y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r is-bwyllgorau hyn yn gyfrifol am gynnal dadansoddiad dwfn gan graffu ar y cysondeb rhwng gwaith gweithredol a ffocws strategol.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r aelodau sy'n gadael y Bwrdd y mae eu gwybodaeth, eu cyngor a'u harweiniad wedi bod yn amhrisiadwy i waith y Bwrdd yn ystod ei bedair blynedd gyntaf. Rwy'n falch iawn o gael fy ngwahodd i barhau yn fy rôl fel Cadeirydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

Yn olaf, hoffwn fynegi fy niolch (a llawer o falchder) i'r tîm bychan o staff sy'n dangos brwdfrydedd, ymroddiad, gwybodaeth helaeth a phroffesiynoldeb diwyro bob amser i sicrhau bod yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i gyflawni ei bwrpas: **Ysbrydoli Arweinwyr – Cyfoethogi Bywydau.**

Dr Sue Davies, Cadeirydd

# Adolygiad o'r Flwyddyn

## SICRHAU ANSAWDD

16 darpariaeth wedi'u cymeradwyo gan 10 darparwr

Dros 3,420 o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn darpariaeth wedi'i chymeradwyo

Symud i alwadau agored am gymeradwyaeth er mwyn annog portffolio ehangach o ddarpariaeth er mwyn bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru

## ARLOESEDD

18 o sefydliadau wedi'u cefnogi drwy'r Llwybr Arloesedd

Cyfresi 2 a 3 o sesiynau arloesi wedi'u cyflwyno gyda Larry Shulman ac Apple Education i dros 600 o gyfranogwyr ledled Cymru

Darpariaeth a ariannwyd yn 2020-2021 drwy'r Llwybr Arloesedd wedi'i chyflwyno i'w chymeradwyo yn 2021-2022

## ARWEINYDDIAETH SYSTEM

**Carfan 1**
Gweithredu fel arweinwyr system y tu hwnt i'w lleoliad eu hunain

**Carfan 2**
Cyhoeddi Adroddiad y Comisiwn

**Carfan 3**
Cwblhau profiadau dysgu

**Carfan 4**
Cyfnod sefydlu wedi'i gyflawni ac yn cwblhau profiadau dysgu

## DATBLYGU ARWEINYDDIAETH

Cyfresi 4, 5 a 6 o weminarau Datgloi Arweinyddiaeth wedi'u cyflwyno i arweinwyr o bob cwr o Gymru gyda 8 siaradwr a thros 600 o fynychwyr

Y Gynhadledd Arweinyddiaeth Ganol gyntaf wedi'i chynnal gyda thros 130 o fynychwyr

## ADNODDAU

Adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol wedi'i gyhoeddi

## MEWNWELEDIAD

Dau bapur wedi'u cyhoeddi yn canolbwyntio ar arwain dysgu proffesiynol, ac arweinyddiaeth ganol

## LLES

Yr ail gynhadledd ar-lein wedi'i chynnal yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth Dosturiol gyda thros 240 o fynychwyr

Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Lles Arweinwyr Addysgol wedi'i chyhoeddi

Adroddiad Arolwg Lles y Sector Gwaith Ieuenctid 2021 wedi'i gyhoeddi

Wedi ennill dyfarniad Aur Lles Buddsoddwyr mewn Pobl

## CYFATHREBU A MARCHNATA

Gwefan newydd wedi'i lansio

Mwy o ymgysylltiad, gwelededd a phresenoldeb yn y sector

Digwyddiadau a gweithgareddau ar-lein wedi'u darparu i dros 3,000 o arweinwyr ledled Cymru

Dros 3,800 wedi gwylio fideos a gwrando ar bodlediadau yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

Wedi ennill ardystiad Cyber Essentials Plus

## PARTNERIAETHAU

Dod ag arweinwyr o bob rhan o Gymru ynghyd ac ehangu y tu hwnt i'r sector ysgolion

Dau ddigwyddiad Blether Rhyngwladol y Tair Gwlad wedi'u cyd-guradu gan gynrychiolwyr o Education Scotland a Chanolfan Arweinyddiaeth Ysgolion Iwerddon

Wedi cydweithio ar ddigwyddiadau gyda Chymdeithas Datblygu Proffesiynol Rhyngwladol Cymru

Ymgysylltu mwy â sectorau eraill

## Sicrhau Ansawdd

Rhan o'n cylch gwaith craidd gan Lywodraeth Cymru yw darparu cydlyniant a sicrhau ansawdd yr ystod o ddarpariaeth arweinyddiaeth sydd ar gael yng Nghymru.

Rydym yn gwneud hyn drwy ein proses gymeradwyo a monitro dan arweiniad 'cymheiriaid'. Mae ystod eang o ddarpariaeth nawr yn cael ei chymeradwyo ac mae bylchau a meysydd o dan wasanaeth wedi'u nodi. Mae fforwm darparwyr cymeradwy wedi'i sefydlu ac fe lansiwyd y prosbectws darpariaeth gymeradwy cyntaf mewn digwyddiad ar-lein ym mis Mawrth 2022.

Yn ystod 2021-22 derbyniwyd pedwar cais am gymeradwyaeth:

- Achieve More Training – darpariaeth i Arweinwyr Canol
- Insight HRC Ltd – darpariaeth Datblygu Darpar Arweinwyr Ysgolion
- Consortia Rhanbarthol a Grŵp sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau – darpariaeth Coetsio a Mentora Cenedlaethol
- Cyngor Celfyddydau Cymru – darpariaeth Arweinyddiaeth Greadigol

Roedd tri yn ail-geisiadau ac un wedi'i gyflwyno yn dilyn cymorth gan ein cronfa Llwybr Arloesi sy'n dangos bod y broses gymeradwyo yn drylwyr a chadarn ond yn ddatblygiadol iawn hefyd. Cafodd pob darpariaeth arall ei monitro a chadwodd pob un ei statws cymeradwy.

**Roedd hi'n bwysig i ni dderbyn cymeradwyaeth er mwyn i gyfranogwyr y dyfodol allu gweld bod ein darpariaeth wedi bod trwy broses sicrhau ansawdd ac o safon uchel o ganlyniad**

## Arloesedd

Mae meddwl a gweithredu'n arloesol yn hanfodol ar gyfer system hunanwella, ac rydym yn cefnogi arweinwyr i arloesi a chefnogi arloesedd ymysg eraill drwy:

- Gronfa Llwybr Arloesi lle mae darpariaeth arweinyddiaeth yn cael ei datblygu, ei phrofi ac yna'i chymeradwyo.
- Gweithdai Arloesi blynyddol i ysgogi meddwl a gweithredu arloesol ymysg arweinwyr addysgol.

Yn ystod 2021-22 fe wnaethom ni gefnogi datblygiad darpariaeth arweinyddiaeth newydd drwy'n cronfa Llwybr Arloesedd, yn cynnwys:

- Addysg Oedolion Cymru – Rhaglen Fentora Arwain Dysgu
- Cyngor Gwynedd – Pecyn Cymhellion i gefnogi DPP arweinwyr
- Perform and Grow – Rhaglen Sgiliau ac Ymarfer Arweinyddiaeth Systemau
- Consortia Canolbarth y De – Arweinyddiaeth System
- Ysgol Gynradd Llwyn Bedw - Dull ysgol gyfan o ddatblygu'r cwricwlwm
- Iungo – Intrapreneuriaeth Strategol

Yn ystod tymor yr haf 2021 cynhaliodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ei ail gyfres arloesedd. Paratowyd y gyfres ar y cyd â'r Cymdeithion a Larry Shulman, Ymgynghorydd Arloesi, Arweinyddiaeth a Newid. Roedd y gyfres, a hwyluswyd gan Larry Shulman, yn canolbwyntio ar yr 'Arweinydd Arloesol' ac ymunodd dros 70 o arweinwyr addysgol o bob cwr o Gymru â hi. Defnyddiwyd y gyfres fel platfform ar gyfer trafodaeth broffesiynol â chydweithwyr, i roi lle i fyfyrio ac i ysgolion a sefydliadau wneud cais am gyllid tuag at 'Meddwl Arloesol ar Waith'. Derbyniodd deg sefydliad, yn cynnwys ysgolion a phrifysgolion y cyllid hwn a'i ddefnyddio i ddangos sut maen nhw fel arweinwyr addysgol yn gweithio tuag at feithrin a chynnal diwylliant cwbl arloesol. Mae rhai enghreifftiau o ddarnau gwaith 'Meddwl Arloesol ar Waith' yn cynnwys prosiectau sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned, mentrau'r Cwricwlwm i Gymru a Gwella Andragogeg - Deall ac Ymarfer.

Ym mis Mawrth 2022 bu'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Apple Education i gynllunio a darparu trydedd gyfres o weithdai arloesi, 'Arwain Arloesi Digidol'.



Diolch i'r gronfa llwybr arloesedd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, cawsom yr amser a'r lle i fod yn greadigol, i feddwl yn wahanol ac i roi cynnig ar ddull newydd. Nawr, mae gennym ddiwylliant sy'n datblygu ac yn cefnogi arloesi ac yn cofleidio'r dysgu o'r hyn sydd wedi gweithio a heb weithio

## Arweinyddiaeth System

Gwyddom fod arweinyddiaeth system effeithiol yn gyrru hunanwelliant gyda gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac arwain y tu hwnt i'w sefydliad, rhwng haenau ac ar draws sectorau. Mae gennym bellach sawl carfan o Gymdeithion yn symud drwy fodel arweinyddiaeth system aeddfed ac maen nhw'n cael dylanwad mesuradwy ar y system addysg y tu hwnt i'w sefydliadau eu hunain yn cynnwys drwy Hwyluso; Eirioli; Ymgyrchu; Porthgadw; Galluogedd newid; Gweithredu; Gwella. Fel y nodwyd ym Mhapur Mewnwelediad yr Athro Alma Harris Arweinwyr Systemau ac Arweinyddiaeth Systemau: Adolygu'r Dystiolaeth.

Maen nhw'n parhau i weithredu fel llais y proffesiwn, gan lywio'n gwaith a darparu cynrychiolaeth ar rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac ar weithgorau Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2021-22 fe wnaethom ni recriwtio pedwaredd garfan o Gymdeithion, gydag arweinwyr o leoliadau amrywiol yn cynnwys y sectorau Cynradd ac Uwchradd, cyfrwng Gymraeg, Ysgolion Arbennig a Gwaith Ieuenctid. Maen nhw wedi bod yn rhan o weithgorau a sgyrsiau cenedlaethol ar nifer o flaenoriaethau strategol, yn cynnwys Lles; Presenoldeb; PISA; y Flwyddyn Ysgol; Hawl Dysgu Proffesiynol; Recriwtio a Chadw Athrawon; Cynorthwywyr Addysgu; Cymraeg mewn Addysg; y Cwricwlwm i Gymru.

Mae ymholiad cydweithredol y Cymdeithion yn parhau i fod yn ffocws i'w gweithgarwch gan lywio a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Mae Carfan 3 a Charfan 4 wedi dechrau ar eu taith gomisiwn gyda Charfan 3 yn ystyried y goblygiadau arwain ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a bydd Carfan 4 yn archwilio Ysgolion sy'n canolbwyntio ar y Gymuned. Dyma'r gwaith allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

# Ein Cymdeithion

## CARFAN 1

**Christine Jackson**
Ysgol Gynradd Glasllwch, Casnewydd, NP20 3RH

**Jeremy Griffiths**
Ysgol Gynradd Gwynedd, Flint, CH6 5DL

**Sue Roberts**
Ysgol Ffordd Dyffryn, Llandudno, LL30 2LZ

**Clive Williams**
Ysgol Gymraeg Aberystwyth, Aberystwyth, SY23 1HL

**Jan Waldron**
Ysgol Calon Cymru, Powys, LD2 3BW

**Karen Lawrence**
Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfaes, Powys, LD3 8EB

**Janet Hayward**
Ysgolion Cynradd Cadoxton a Oak Field, Barri, CF63 2JS

**Emma Coates**
Ysgol Gynradd Llanhari, Pontyclun, CF72 9LQ

**Huw Powell**
Ysgol Uwchradd y Fair Ddihalog, Caerdydd CF5 5QZ

## CARFAN 2

**Trefor Jones**
Ysgol y Creuddyn Llandudno LL30 3LB

**Tania Rickard**
Ysgol T. Gwynn Jones, Bae Colwyn LL29 9UA

**Richard Monteiro**
Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor
Sir Ddinbych LL16 4EY

**Ian Gerrard**
Ysgol Aberconwy, Conwy LL32 8ED

**Damien Beech**
Pennaeth Tîm y Cyfnod Cynradd, Abertawe

**Roger Guy**
Ysgol Gynradd Gilwern, Y Fenni NP7 0AY

**Paul Keane**
Ffederasiwn Ysgol Gymunedol Heol Blenheim a Choed Efa,
Cwmbrân NP44 4SZ

**Karen Watham**
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Merthyr Tudful
CF47 8HA

**Sarah Coombes**
Ysgol Gynradd Llanisien Fach, Caerdydd CF14 6SS

## CARFAN 3

**Catrin Thomas**
Ysgol Bro Preseli, Crymych SA41 QH

**Simon Roberts**
Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Maes-y-bryn
Pontypridd CF38 2NS

**Alison Ellis**
Ysgol Maesyrhandir, Y Drenewydd, SY16 1LQ

**Kerina Hanson**
Ysgol Gynradd Pennard, Abertawe SA3 2AD

**Justine Baldwin**
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng,
Y Trallwng SY21 7EJ


**Sharon Hope**
Ysgol Gynradd y Glais, Abertawe SA6 7JX

**Dr Joe Cudd**
Ysgol Pen Rhos ac Ysgol Pentip, Llanelli
SA15 2NG ac SA15 3BL

**Olwen Corben**
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug CH7 1PS

**Marc Jones**
Ysgol Pen Barras, Rhuthun LL15 1QQ

**Dr Llinos Jones**
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Caerfyrddin SA32 8DN



## CARFAN 4

**Gayle Shenton**
Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd, Castell-nedd SA11 3AL

**Jonathan Keohane**
Ysgol Gynradd Parc y Rhath, Caerdydd CF24 4BB

**Jayne Woolcock**
Ysgol Gynradd Penlle'r-gaer, Abertawe SA4 9DB

**Rhian Milton**
Ysgol Gynradd Tregatwg, Y Barri CF63 2JS

**Rebecca Turner**
Ysgol Acrefair, Wrecsam LL14 3SH

**Noel Fitzgerald**
Ysgol Pen Coch, Y Fflint CH6 5DL

**Mair Hughes**
Ysgol Penglais, Aberystwyth SY23 3AW

**Louise Williams**
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Wrecsam LL13 0ES

**Heini Thomas**
Ysgol Y Dderi, Llangybi SA48 8LY

**Gavin Gibbs**
Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen, Torfaen, NP44 1AN

**Andrew Brasington**
Ysgol Gynradd George Street, Pont-y-pŵl NP4 6BX

**Joanne Cueto**
Ysgol Gynradd Maendy, Casnewydd NP19 0AP

**Claire Williams**
Ysgol Gynradd Glan Usk, Casnewydd NP19 7HF

## Datblygu Arweinyddiaeth

Yn ystod 2021-22 mae arweinwyr addysgol yng Nghymru wedi manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd sy'n cyfrannu at ddatblygiad eu galluoedd proffesiynol ac maen nhw'n teimlo eu bod wedi'u grymuso, eu hysbrydoli a'u cymell, yn cynnwys drwy'r digwyddiadau a'r gweithgareddau canlynol – gweminarau Datgloi Arweinyddiaeth gyda siaradwyr fel yr Athro Alma Harris, yr Athro David Hopkins a Hamish Brewer, digwyddiadau Mewn Sgwrs a chynadleddau ar les ac i arweinwyr canol.

> **Roedd hi'n wych edrych y tu hwnt i'r sector addysg... ro'n i'n mwynhau bod y tu allan i'r bocs.**

### COVID-19

Parhaodd y pandemig byd-eang i darfu ar ysgolion ac fe wynebwyd cyfnodau cau ysbeidiol pellach gydol y flwyddyn. Ni chafodd gwaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ei effeithio'n uniongyrchol gan y tarfu hwn gan fod holl weithgarwch y sefydliad yn cael ei ddarparu ar-lein ac roedd staff yn gallu gweithio o gartref.

## Partneriaethau

Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn parhau i ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar draws yr haen ganol a thu hwnt.

### Consortiwm Arweinyddiaeth y Tair Gwlad

Mae ein partneriaeth ag Education Scotland a Chanolfan Arweinyddiaeth Ysgolion Iwerddon yn parhau.

Ar lefel strategol mae cyfeiriad corfforaethol y sefydliad yn cael ei archwilio a'i herio gan Gyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol y Tair Gwlad drwy systemau adolygu gan gymheiriaid. Mae'r Alban ac Iwerddon yn gwneud cyfraniad o ran sicrhau ansawdd y broses gymeradwyo ar gyfer darpariaeth ac yn cynnig gwybodaeth werthusol am gryfderau a meysydd datblygu'r broses. Bydd yr wybodaeth hon yn llywio newidiadau yn ein proses Sicrhau Ansawdd y flwyddyn nesaf.

Rydym yn parhau i gydweithio ar y Blether Rhyngwladol (Gaeleg yr Alban) / Comrhá (Gwyddeleg) / Sgwrs (Cymraeg) digwyddiadau mewn trafodaeth. Ym mis Ebrill 2021 canolbwyntiodd y Blether ar y ffordd y mae arweinwyr ysgolion wedi gorfod addasu eu harddull a'u hymagwedd at arweinyddiaeth, o arwain mewn argyfwng yn ystod y pandemig, i ddatblygu arweinyddiaeth gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Roedd yr ail Blether, a draddodwyd ym mis Tachwedd 2021, yn cynnwys chwe arweinydd canol o bob cwr o Gymru, Iwerddon a'r Alban yn rhannu eu safbwyntiau, eu profiadau a'u heriau mewn perthynas â'u rolau. Mae'r Blethers yn gyfle i arweinwyr o'r tair gwlad wrando ar eu profiadau a gofyn cwestiynau dilynol.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd y Blether Rhyngwladol yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol, ymchwil, ymholiad ac arbenigedd.

### IPDA Cymru

Ym mis Hydref 2021 fe wnaethom ni gyflwyno ein digwyddiadau cydweithredol cyntaf gydag IPDA Cymru yn archwilio'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Roedd y digwyddiadau yn cynnwys arweinwyr ac athrawon o ddetholiad amrywiol o ysgolion a oedd yn adlewyrchu a rhannu eu profiadau o ddefnyddio'r safonau arweinyddiaeth.

### Partneriaethau Rhyngwladol

Mae partneriaethau rhyngwladol wedi parhau i ddatblygu ar-lein eleni gyda'r Athro Michael Fullan yn cyflwyno ei weminar Datgloi Arweinyddiaeth o Ontario, Dr John De Noble yn rhoi ei brif araith yn y gynhadledd Arwain o'r Canol o Awstralia a Dr Lyn Sharratt yn cynnal gweminar i'r Cymdeithion o Ontario.

# Adnoddau

## Arwain Dysgu Proffesiynol

Cafodd ein hadnodd Arwain Dysgu Proffesiynol ei lansio ar-lein ym mis Mawrth 2022. Mae'r adnodd yn cynnwys wyth dilysnod dysgu proffesiynol dan arweiniad effeithiol, a gafwyd o adolygiad helaeth o lenyddiaeth academaidd a pholisi rhyngwladol, ac mae'n gwahodd arweinwyr addysgol yng Nghymru i fod yn ysbrydoledig yn eu dull strategol o arwain dysgu proffesiynol drwy ffilmiau byrion ac animeiddiadau, astudiaethau achos helaeth a dolenni at ddeunydd darllen pellach.

# MewnweledHiad

Parhawyd i gyhoeddi gwaith ymchwil a dadansoddi newydd drwy ein Cyfres Mewnweledhiad. Bu'r Athro Christine Forde a Kathleen Kerrigan o Ysgol Addysg Prifysgol Glasgow, yn archwilio datblygiad 'arweinyddiaeth ganol' mewn ysgolion yng Nghymru a chyhoeddwyd y papur gan yr Athro Ken Jones ar Arwain Dysgu Professional i gyd-fynd â'n hadnodd Arwain Dysgu Proffesiynol.

## Gwaith Comisiwn

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Cymdeithion Carfan 2 eu comisiwn 'Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus?'

Lluniodd y Cymdeithion e-ddogfen yn amlinellu eu canfyddiadau a'u hargymhellion. Cynhaliodd y Cymdeithion ddigwyddiad lansio ar-lein swyddogol gyda'r siaradwyr gwadd Kevin Palmer (Llywodraeth Cymru), Bethan Webb (Llywodraeth Cymru) a Richard Barwell (Prifysgol Ottawa).

Bydd y Cymdeithion o Garfanau 3 a 4 yn gwneud eu gwaith comisiwn eu hunain yn 2022-2023.

# Lles

Yn ystod 2021-2022 mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi parhau i weithio tuag at sector sy'n blaenoriaethu ac yn cefnogi'n systematig lles pob arweinydd addysgol ledled Cymru. Fe wnaeth grŵp Strategaeth Lles Cymru Gyfan, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, yr Esgobaethau, Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol gwblhau'r papur 'Er sylw'. Mae'r papur, sydd hefyd wedi'i lywio gan ymarferwyr drwy grŵp ymgynghorol o arweinwyr, wedi'i rannu â Llywodraeth Cymru ac mae'n amlinellu cyfres o gynigion lles dan y themâu - polisi, ymarfer ac egwyddorion.

Parhawyd i gynnig cyfle i benaethiaid fynychu Pen-i-Ben - ein platfform cyfrinachol, ar-lein lle mae penaethiaid yn dod ynghyd mewn grwpiau bach i gefnogi lles ei gilydd- ac ehangwyd y cynnig i benaethiaid dros dro ac uwch-arweinwyr o'r sector gwaith ieuenctid.

Ym mis Ionawr 2022, cynhaliodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ei hail gynhadledd ar les yn archwilio Arweinyddiaeth Dosturiol gyda siaradwyr gwadd fel yr Athro Michael West CBE, Dr Ali Davies, Maggie Farrar a'r Athro Andy McCann. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys 'Lleisiau o'r Maes', sesiwn lle bu penaethiaid ac uwch-arweinwyr o'r sector gwaith ieuenctid yn rhannu eu profiadau o arwain yn dosturiol yn eu lleoliadau eu hunain. Daeth 240 a mwy o arweinwyr addysgiadol o bob cwr o Gymru i'r gynhadledd.

# Datganiadau Ariannol

## Cyfrif Elw a Cholled ar gyfer diwedd y Flwyddyn 31 Mawrth 2022

| | 2022<br>£ | 2021<br>£ |
|---|---|---|
| Trosiant | 1,348,912 | 900,000 |
| Cost Gwerthiannau | (751,967) | (733,255) |
| Gwarged Gros | 596,945 | 166,745 |
| Treuliau Gweinyddol | (612,058) | (551,176) |
| Gwarged gweithredu | (15,113) | (384,431) |

Deilliodd y canlyniadau uchod o weithrediadau parhaus. Nid oes gan y cwmni unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod ac eithrio'r canlyniadau uchod.

## Mantolen ar 31 Mawrth 2022

| | 2022<br>£ | 2021<br>£ |
|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | |
| Asedau Diriaethol | 2,268 | 11,867 |
| **Asedau Cyfredol** | | |
| Dyledwyr | 173,375 | 177,615 |
| Arian yn y Banc ac mewn Llaw | 3,095 | 4,832 |
| | **176,470** | **182,447** |
| **Credydwyr**: Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | (14,676) | (15,139) |
| Asedau **cyfredol Net** | 161,794 | 167,308 |
| Asedau **Net** | 164,062 | 179,175 |
| **Cyfalaf ac wrth gefn** | | |
| Cyfrif elw a cholled | 164,062 | 179,175 |
| Cronfeydd wrth gefn | 164,062 | 179,175 |

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau arbennig sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n destun y trefniadau cwmnïau bach yn Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd gan y Bwrdd ar 30 Medi 2022 a llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:



Dr S Davies (Cyfarwyddwr)

# Y Flwyddyn i Ddod

## SICRHAU ANSAWDD

Bydd ein galwad am gymeradwyaeth yn y flwyddyn i ddod yn nodi pa ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi arweinwyr yn y blaenoriaethau strategol canlynol: Anghenion Dysgu Ychwanegol; y Cwricwlwm i Gymru; Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Gwrth-hiliaeth; Y Gymraeg mewn Addysg; Arweinyddiaeth Dosturiol; Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol; Llywodraethwyr

## ARLOESEDD

- Parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth arweinyddiaeth newydd a chefnogi darparwyr i gyflwyno eu darpariaeth arloesol i'w chymeradwyo.
- Cydweithio â'r Athro Andy Penaluna i gynllunio a chyflwyno pedwaredd gyfres o weithdai arloesi i ysgogi meddwl a gweithredu arloesol.

## ARWEINYDDIAETH SYSTEM

- **CARFANAU 1 A 2:** Cymdeithion yn gweithio o fewn a thu hwnt i'w sefydliadau eu hunain ac yn gweithredu fel Arweinwyr System
- **CARFANAU 3 A 4:** Gweithio ar eu comisiynau – yn canolbwyntio ar Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Ysgolion â Ffocws Cymunedol
- **CARFAN 5:** Wedi ymgymryd â'u sefydlu ac yn gwneud profiadau dysgu

## DATBLYGU ARWEINYDDIAETH

Gweminarau Datgloi'r Cwricwlwm gyda'r siaradwyr yr Athro Graham Donaldson, yr Athro Ken Muir a'r Athro Mark Priestley ac fe'u cyflwynwyd i arweinwyr ar hyd a lled Cymru.

## ADNODDAU

Cynyddu ymgysylltiad â'r adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol drwy ddigwyddiadau wedi'u curadu a chynnwys megis podlediadau.

## MEWNWELEDIAD

Cyhoeddi dau bapur newydd yn y Gyfres Mewnwelediad

## CYFATHREBU A MARCHNATA

- Mwy o ymgysylltu a phresenoldeb digidol
- Mwy o amlygrwydd a phresenoldeb yn y sector
- Cyflwyno cyfathrebiadau a digwyddiadau hybrid i arweinwyr ledled Cymru
- Rhyddhau dulliau deniadol a newydd o ran cyfathrebu a chynnwys sy'n tynnu sylw at waith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol

## PARTNERIAETHAU AC YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

- Cyd-gynllunio cytundebau partneriaeth ffurfiol â'r consortia trawsranbarthol a chynllunio cytundebau'r dyfodol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, Cymwysterau Cymru a Cymorth Addysg
- Cyd-guradu a chydweithredu ar ddigwyddiadau gyda Chonsortiwm y Tair Gwlad (Education Scotland a Chanolfan Arweinyddiaeth Ysgolion Iwerddon) a Chymdeithas Datblygiad Proffesiynol Rhyngwladol Cymru
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn digwyddiadau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd a'r Sioe Addysg Genedlaethol
- Darparu a chymryd rhan mewn sesiynau mewn cynadleddau cenedlaethol fel Cynhadledd Flynyddol BELMAS 2022

## LLES

- Cynhaliwyd archwiliad o'r ddarpariaeth lles sydd ar gael i arweinwyr yng Nghymru

## DATBLYGU GWEITHLU STRATEGOL

- Adolygiad o'r cynnig datblygu arweinyddiaeth AHO wedi'i gwblhau
- Prosiect ymchwil wedi'i gomisiynu i ddeall tueddiadau recriwtio a chadw mewn arweinyddiaeth addysgol







agaa.cymru
nael.cymru